monmouthshire sir fynwy

# Sut wyf yn medru cael help?

# Cymorth gydag eiriolaeth









## Beth yw eiriolaeth?

Mae hawliau gennych – nid oes ots beth yw eich oedran ac mae'n bwysig eich bod yn gwybod beth yw eich hawliau.

A oeddech yn gwybod fod hawl gennych i siarad ar ran eich hun pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau ar eich rhan?

Bydd eiriolaeth – neu wasanaeth eirioli – yn eich cefnogi chi ac yn sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed pan fydd penderfyniadau yn cael eu gwneud amdanoch.

Mae rhieni hefyd yn medru cael mynediad at wasanaeth eirioli er mwyn eu helpu hwy i siarad ar ran y plentyn ac er mwyn sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed.

## Beth fydd eiriolydd yn ei wneud?

- ➔ Helpu chi siarad ar ran eich hun neu'n siarad ar eich rhan os ydych yn dymuno
- ➔ Gwrando ar unrhyw bryderon sydd gennych ac yn eich helpu i gymryd camau er mwyn delio gyda hwy
- ➔ Bod yn agored ac onest gyda chi
- ➔ Helpu chi herio penderfyniadau
- ➔ Helpu chi baratoi am gyfarfodydd
- ➔ Esbonio wrth weithwyr proffesiynol sut ydych yn teimlo
- ➔ Esbonio wrthych beth sydd yn digwydd a beth sydd yn debygol o ddigwydd
- ➔ Helpu chi ddatrys problem os ydych yn ystyried gwneud cwyn, hawlio gwahaniaethu neu'n apelio.

**Ni fydd eiriolydd yn:**

- ➔ Eich beirniadu
- ➔ Dweud wrthoch beth i'w wneud
- ➔ Siarad ag unrhyw heb eich caniatâd

## Sut ydych yn medru derbyn cymorth?

Rydych yn medru siarad gyda'ch teulu, lleoliad, gweithiwr cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol neu'r awdurdod lleol ynglŷn â threfnu eiriolydd.

Fel arall, rydych yn medru cysylltu gyda SNAP Cymru neu NYAS yn uniongyrchol a siarad gyda Swyddog Teulu neu Berson Ifanc.

## SNAP Cymru

Mae SNAP Cymru yn elusen ar draws Cymru gyfan sydd yn gweithio gyda theuluoedd, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ar faterion sydd yn ymwneud gydag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau.

Mae SNAP Cymru yn wasanaeth Partneriaeth Rhieni Annibynnol sydd am ddim i deuluoedd ac yn cynnig gwybodaeth gywrain, cyngor a chymorth.

Mae llinell gymorth gan SNAP Cymru sydd ar gael o ddydd Llun i ddydd Iau, 9.30am - 4.30pm

**Llinell gymorth: 0808 801 0608**
**www.snapcymru.org/help-for-families**

## Gwasanaeth Eirioli Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)

Mae NYAS yn cynnig eiriolaeth unigol i ac ystod o wybodaeth, cyngor a chymorth er mwyn sicrhau bod barn dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc yn cael eu parchu. O ganlyniad, mae eu lleisiau yn cael eu clywed pan fydd penderfyniadau yn cael eu gwneud amdanynt.

Mae llinell gymorth gan NYAS sydd gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9am a 6pm.

**Llinell gymorth: 0808 808 1001**
**E-bost: help@nyas.net**
**Post: RHADBOST NYAS**

monmouthshire
sir fynwy

**CYSYLLTWCH GYDA NI:**
**Cyngor Sir Fynwy**
**Gwasanaeth ADY**
**Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga**
**Sir Fynwy**
**NP15 1GA**
**Ffôn: 01633 644512**
**E-bost: ALN@monmouthshire.gov.uk**

monmouthshire
sir fynwy

# Sut wyf yn medru cael help?

---

# Cymorth gydag eiriolaeth

